Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
MAI 2009

DYDDIAD	Nos Fercher, 15fed Mai
AMSER	7yh
LLEOLIAD	Canolfan Cae'r Gors, Rhosgadfan
AELODAU'N BRESENNOL	Jason Hunt (Cad), Tom Ellis, Gwilym V.Thomas, Huw Williams, Meurig Williams, Elwyn Jones
HEFYD YN BRESENNOL	Elfyn Thomas ac Alwyn Roberts, Cwmni Seren Arian Cyng.Aeron M.Jones Bethan Williams, Clerc

1. **Croeso**
   Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan gynnwys 2 gynrychiolydd o gwmni Seren Arian.
2. **Cyflwyniad gan Gwmni Seren Arian**
   Roedd aelodau o'r cyngor wedi clywed si fod y gwasanaeth bysiau yn mynd i gael ei gwtogi.
   Eglurodd Alwyn Roberts o'r cwmni nad oes bwriad o gwbwl i gwtogi'r gwasanaeth, ac yn wir roedd yn croesawu'r cyfle i ddod i gyfarfod â'r aelodau i egluro'n union be mae'r cwmni yn ei gynnig i'r ardal. Cydnabodd fod problemau wedi bod yn y gorffennol gyda rhai bysiau yn rhedeg yn fuan ac yn hwyr, ond fe sicrhaodd pawb fod y problemau rheini bellach wedi'u setlo. Does dim bwriad gan y cwmni i gwtogi'r gwasanaeth, fodd bynnag efallai y bydd y Cyngor Sir yn cwtogi'r grant fydd ar gael i gwmniau, ac yn gorfodi'r cwmniau bysiau i edrych eto ar yr amserlenni. Gofynnodd Mr.Roberts am gefnogaeth y cyngor cymuned i geisio cadw'r gwasanaeth, ac yn wir efallai ofyn am fysiau ar y Sul i ychwanegu at y gwasanaeth presennol. Fodd bynnag, rhaid sylweddoli fod angen i bobl ddefnyddio'r gwasanaeth yn rheolaidd os ydynt am gael parhâd.
   Adroddodd Elfyn Thomas fod gan y cwmni, yn hanesyddol, ddiddordeb yn yr ardal yma, ac nid oes unrhyw fwriad i gwtogi'r gwasanaeth. Mae'n ymfalchïo yn y ffaith eu bod yn gwmni lleol ac yn gallu gwasanaethu'r gymuned leol.
   Nodwyd hefyd fod problemau gyda rhai ffyrdd, yn arbennig felly rhwng Rhos Isaf, Dinas, Maes Tryfan, gyda gordyfiant coed yn creu problemau, hefyd ar bontydd Ffrwdd Cae Du a Chaer Moel. Nodwyd hefyd nad yw hi'n bosib cynnal gwasanaeth ar hyd ffordd Capel Bryn gan fod cyflwr y ffordd mor wael. Hefyd, nodwyd fod problemau yn codi o bryd i'w gilydd ym mhentref Carmel, gan fod ceir yn parcio ar ochr y ffordd ac yn culhau'r ffordd.
   Nododd Cynghorydd Aeron M.Jones ei fod yntau wedi derbyn ceisiadau gan bobl am well gwasanaeth bysiau yn yr ardal, yn arbennig ar y Sul, a'i fod yn gweithio'n agos gyda'r swyddogion yn y Cyngor Sir i geisio dod a perswad arnynt.
   Roedd y cwmni hefyd yn pwysleisio'r ffaith eu bod ar gael unrhyw amser i ateb cwestiynau. Roeddynt hefyd yn nodi eu bod yn awyddus iawn i fod yn rhan o'r gymuned a'u bod yn mwy na bodlon i fynychu unrhyw ddigwyddiadau cymunedol yn yr ardal.
   Diolchwyd i'r ddau gan yr aelodau, ac fe adawsant y cyfarfod.

3. **Ymddiheuriadau**
   Elin Evans, Nerys Evans, Neal Williams, Jane Eryl Jones

4. **Datgan Buddiant**
   AMJ – materion cynllunio
   BCW – materion cynllunio

5. **Cadarnhau cofnodion**
   Cadarnhawyd cofnodion fis Ebrill fel rhai cywir.
   Mater yn codi o'r cofnodion: gweler ynghlwm adroddiad lawn gan AMJ am Ysgol Syr Hugh Owen

6. **Materion i'w trafod:**
   a. MW – oes gwirionedd yn y straeon fod Silver Star yn bwriadu torri nôl ar y gwasanaeth? Gweler adroddiad uchod.
   b. GLW – Isfryn – dwr yn dod i'r lôn, tyllau yn ffordd. Meirion Williams, Cyngor Gwynedd yn nodi fod y ffosydd wedi'u clirio.
   c. Brynffynnon – ffens wedi'i gosod ynghanol y ffoes yn hytrach nag wrth ei hochr. Angen ysgrifennu i Gyngor Gwynedd ac at gynrychiolydd y Goron. Wedi derbyn ymateb gan Meirion Williams, yn nodi eu bod wedi bod mewn cysylltiad â'r perchennog, ac mai ffens dros dro yw hon i warchod planhigion ar y wal.
   d. GVT – ffens sy'n amgylchynu'r tir o gwmpas Cilgwyn – gofyn wrth y Cyngor Sir be maen nhw'n fwriadu'u wneud efo hi.
   e. NW – ceir yn gyrru ger Glyn Carrog. Clerc wedi sgwennu at yr heddlu yn nodi fod damweiniau eisoes wedi digwydd yno. Wedi danfon copi o'r llythyr eto i Gaernarfon a Phenygroes.
   f. ElJ – parcio ger Bro Wyled. Clerc i bwyso ar Gyngor Gwynedd, ac i ofyn am gynrychiolydd i ddod yno i'n cyfarfod. AMJ am geisio drefnu cyfarfod.
   g. NE – coed y fynwent yn gordyfu. Clerc i geisio cael arbenigwr i edrych ar y coed ac i'n cynghori.
   h. HW – wedi derbyn cwyn am gyflwr mynwent Rhostryfan. Clerc i basio'r gwyn ymlaen at ymddiriedolwyr y capel gan bwysleisio mai eu cyfrifoldeb hwythau yw'r fynwent.
   i. JEJ – postiau concrid dal heb eu trwsio yn Ffrwd Cae Du. Wedi derbyn ymateb gan Meirion Williams, Cyngor Gwynedd, yn nodi fod cynlluniau ar y gweill i drwsio rhain, ond nad ydynt yn flaenoriaeth ar hyn o bryd.
   j. EE – monitro traffig yn Saron – unrhyw ddatblygiad? AMJ yn nodi mai 34myw oedd 'mean speed' gyrrwyr pan wnaethpwyd archwiliad. AMJ wedi cysylltu â'r heddlu ac mae 'speed patrol' wedi bod yn bresennol yno.
   k. TE – arwydd i yrrwyr yn dynodi llwybr cyhoeddus ar y ffordd newydd. AMJ am fynd ar ôl y Cynulliad.
   l. JH – wedi cael cais yn gofyn oes posib cael palmant ger y fynwent yn Rhostryfan. Hwn i'w drafod yn ystod ymweliad gan swyddogion Cyngor Gwynedd sydd i'w drefnu gan AMJ.
   m. Sefyllfa problem mwg yn Gadlys – adroddwyd fod problemau enbyd wedi bod yn ddiweddar ynglyn â mwg yn yr ardal. AMJ yn ceisio cael cadarnhad gan Asiantaeth yr Amgylchedd fod y drwydded i dderbyn

gwastraff ar gyfer y tir yma yn cael ei lleihau neu ei diddymu.

n. Wedi derbyn ymateb gan McDonalds ynglyn â phroblem sbwriel. Nodir nad oes sylw yn cael ei wneud mai 'drive through' ydy'r bwyty yng Nghaernarfon, ac felly nid yw casglu sbwriel ar y lleoliad yn ddigonol. Clerc i gysylltu efo Cadw Cymru'n Daclus i weld os oes unrhyw beth y gellid ei wneud.
o. Mynwent Cefnfaes – wedi cael gair gyda'r Arglwydd Newborough, ac mae yntau wedi fy sicrhau y bydd y mater yn cael sylw buan
p. Cwynion ynglyn â'r Maes yng Nghaernarfon – Gwyn Morris Jones wedi cyfeirio'r llythyr at Aled Davies, Pennaeth Rheoleiddio, ac yntau wedi cyfeirio'r llythyr ymlaen at Dafydd Wyn Jones ac fe dderbyniodd y clerc ateb ar ebost gan Adrian Wyn Williams – gweler gopi ynghlwm.
q. Ymateb gan Meirion Williams ynglyn a materion mis diwethaf (gweler b, c ac i uchod)
r. Cynulliad – rheoli diogelwch cofebau claddfeydd – nododd y clerc fod canllawiau newydd wedi'u hanfon a'u bod bellach yn derbyn nad peiriant yw'r ffordd orau i ddarganfod os yw cofeb yn anniogel. Mae'n ddigonol i checio'r gofed gyda dwylo yn unig.
s. Llythyr o gwyn ynglyn â dwr ar y ffordd rhwng Trem Werydd a Maen Brith, Rhostryfan. AMJ i ymchwilio ymhellach i'r mater. Clerc eisoes wedi bod mewn cysylltiad â'r Cyngor Sir i geisio datrys y broblem yma.
t. TE am nodi fod cwmni Costain wedi gosod giât mochyn a ffens bren ar lwybr sy'n arwain o Bethesda Bach heibio Hen Gastell.
u. Nododd AMJ fod pobl wedi taflu sbwriel (teiars) ar lwybr Bryn Rhedyn. Mae eisoes wedi cysylltu â'r cyngor. Hefyd fe nododd fod lladrad wedi digwydd yn ddiweddar mewn ty sydd a'i gefn at Lôn Eifion. Mae'n mynd i geisio trefnu cyfarfod o 'Neighbourhood Watch' ac hefyd yn mynd i geisio cael ffens rhwng y tai a Lôn Eifion.
v. Culvert yn is lawr na Tai Gwelfor yn Rhosgadfan – angen cael y Cyngor Sir i gau pen y culvert i atal plant rhag mynd iddi. AMJ yn rhoi sylw i'r mater.

7. **Derbyn Adroddiadau:**

8. **Is-bwyllgorau:**
Bydd y clerc yn trefnu is-bwyllgor y fynwent maes o law i drafod prisiau ac ati. Hefyd, bydd angen gwneud archwiliad blynyddol o'r cofebau. HW wedi gwirfoddoli i wneud y gwaith, os y caiff help gan aelod arall.

9. **Materion Ariannol**

Cyfri Cadw:	15.606.53
Cyfri Siec:	339.02
CYFANSWM	**15,945.55**

10 Taliadau:

Cyflog/costau clerc mis Ebril ac ad-daliad offer printio	403.90
Cyllid y Wlad	88.60
Siôn Owen	400.00
SLCC – cynhadledd Llandudno	56.35
SLCC - Tâl aelodaeth	94.00

Derbyniadau

Claddu Oliver Cledwyn Thomas	+250.00
Praesept Ebrill	+9,850.00

Derbyniadau eraill:

Siec am gan Bwyllgor Tir Glas, arian oedd yn weddill o'r cyfrif. Hwn i gyfrannu tuag at ofal a thrwsio'r parc.	+212.95

Cais am nawdd i'w ystyried ym mis Chwefror:
Cymdeithas Alzheimer's

11 **Materion Cynllunio**

Dim gwrthwynebiad i'r canlynol:
CO9A/0221/24/LL – Ty'n Lôn, Rhos Isaf – estyniad
CO9A/0243/24/CR – Tan y Ffynnon, Rhos Isaf – newidiadau ac estyniadau

Ynglyn â'r cais CO9A/0231/24/LL – White Tower – ail leoli carafannau a newid telerau – hoffai'r aelodau nodi fod cryn bryder fod nifer o feysydd carafannau yn yr ardal bellach yn gofyn am gael trwydded i adael yr unedau am 12 mis o'r flwyddyn yn hytrach na 10 mis.

Wedi'u caniatau:
Cae Bach, Maen Coch - Ty fforddiadwy
12 Bron Eryri – creu wal a man parcio

Wedi'i wrthod:
Ty Gwair, Ty Hen, Llanwnda – cais ôl weithredol i newid edrychiad deheuol yr adeilad.

12 **Gohebiaeth:**

a. Un Llais Cymru – cynhadledd a chyfarfod blynyddol
b. Un Llais Cymru – dyfarniad cyflog cenedlaethol terfynol i Glercod Cynghorau Lleol – cytunwyd i godi lefel cyflog y clerc i gydfynd â'r fframwaith cenedlaethol.
c. Zurich – Seminarau
d. Cylchgronnau

13 **Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf:**

a) MW – angen glanhau graffiti o'r gysgodfan bysiau yn Penyffridd. Nododd AMJ ei fod yn mynd i gynnal teithiau efo'r heddlu a swyddogion o'r cyngor ac yn nodi unrhyw waith clirio fydd ei angen ei wneud yn yr ardaloedd.

b) HW – wal Aberalaw – angen sylw gan fod cerrig yn disgyn i'r ffordd

c) GVT – be sy'n digwydd efo cae chwarae Rhosgadfan? Adroddodd HW eu bod bellach wedi trefnu yswiriant blynyddol a bod bwriad i gynnal cyfarfod i geisio bwrw 'mlaen efo'r cynlluniau. Nododd hefyd ei fod wedi bod yn Stockwells ym Mangor yn holi am goliau i'w gosod yn y cae ar gyfer gwyliau'r haf. Awgrymodd GVT y dylai'r ysgrifennydd ffonio pawb sydd ar y pwyllgor i roi gwybod pryd fydd y cyfarfod nesaf.

d) JH – polyn BT ger syrjeri Rhostryfan yn anniogel.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.10pm.